
Egwyddorion Adfer Lleoliadau COVID-19 Cymru Gyfan

Cyflwyniad

Mae amodau'r pandemig wedi cael cryn effaith ar wasanaethau gofal iechyd a rhaglenni addysg y proffesiwn iechyd. Ar ôl cyflwyno trefniadau rhaglen diwygiedig ledled Cymru mewn ymateb i COVID-19 ar gyfer myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth, a myfyrwyr proffesiynau a reoleiddir gan HCPC, mae bellach yn ddyletswydd ar sefydliadau i symud i gyfnod adfer lleoliadau estynedig. Rhoddir blaenoriaeth allweddol i barhad lleoliadau myfyrwyr a gweithio drwy'r newidiadau i'r broses o ddarparu rhaglenni, er y gallai'r rhain barhau am beth amser eto.

Mae'r egwyddorion canlynol yn darparu mesurau meincnodi ansawdd Cymru gyfan ar gyfer darparwyr lleoliadau, sefydliadau addysg cymeradwy a chyrff allweddol mewn perthynas â dysgu mewn lleoliadau dan amgylchiadau newydd COVID-19. Mae'r egwyddorion yn ystyried safonau rhaglen NMC *Argyfwng presennol a rhaglen adfer safonau* (2021) and HCPC *COVID-19 applying our standards* (2020). Dylid eu darllen ar y cyd â chanllawiau Cyngor y Deoniaid ar ddychwelyd i leoliadau clinigol https://councilofdeans.org.uk/wp-content/uploads/2020/08/030820-Returning-to-clinical-placements-guide-for-HEIs.pdf

Trosolwg o egwyddorion adfer lleoliadau COVID-19 Cymru gyfan



Egwyddorion Adfer Lleoliadau COVID-19 Cymru Gyfan:

Dysgu integredig ac ailgynllunio gwasanaethau	
Meincnod:	
1.	Mae cyfleoedd dysgu myfyrwyr ar gyfer cyflawni hyfedredd yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau ar ailgynllunio gwasanaethau gofal iechyd a lleoliadau wrth i wasanaethau ailddechrau.
2.	Mae myfyrwyr yn gymwys i ddysgu mewn lleoliadau mewn perthynas â'u rôl fel 'gweithiwr allweddol' mewn lleoliadau ymarfer, gyda strategaethau ymdopi ar gyfer lles personol a chydnerthedd dan amgylchiadau heriol.
3.	Mae pob myfyriwr yn cael pob cymorth i ddychwelyd i drefniadau rhaglen y 'normal newydd' naill ai o 30.09.20 neu cyn hynny, gan gynnwys hwyluso lleoliadau ychwanegol a chymarebau ymarfer/theori wedi'u haddasu'n briodol er mwyn gallu cwblhau'r rhaglen yn amserol. Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth *Argyfwng presennol a rhaglen adfer safonau* (2021): https://www.nmc.org.uk/standards-for-education-and-training/emergency-education-standards/ Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) *COVID-19 applying our standards*: https://www.hcpc-uk.org/covid-19/advice/applying-our-standards/
Asesiadau risg a pharu lleoliadau	
Meincnod:	
4.	Mae cyfathrebu effeithiol rhwng Darparwyr Lleoliadau a Sefydliadau Addysg Cymeradwy yn galluogi cwblhau asesiadau risg myfyrwyr unigol yn amserol cyn dychwelyd i ddysgu lleoliad, gan ddefnyddio Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu (neu adnodd cyfatebol): https://llyw.cymru/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu[1]

[1] Bydd sefydliadau'n cynnal asesiadau risg generig hefyd sy'n crynhoi'r broses o liniaru risgiau i fyfyrwyr ar draws pob rhaglen i'w hadolygu o leiaf fisol neu'n gynt os oes angen.

5.	Bydd datganiadau iechyd myfyrwyr sy'n nodi risg gymedrol neu sylweddol yn sbarduno ymgynghoriad unigol â phersonél perthnasol AEI a Darparwyr Lleoliadau sy'n ystyried gofynion amddiffyn, grwpiau risg uwch, canllawiau iechyd y cyhoedd, ac iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr: https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/people-at-higher-risk/whos-at-higher-risk-from-coronavirus/
6.	Mae cyswllt rhwng darparwyr lleoliadau a phersonél AEI yn hwyluso'r gwaith o fapio ac argaeledd parhaus amgylcheddau dysgu ymarfer gyda sgoriau risg isel, canolig neu sylweddol dangosol ynghlwm.
7.	Mae cydgysylltu rhwng darparwyr lleoliadau a phersonél AEI yn galluogi i ddatganiadau asesu risg COVID-19 myfyriwr unigol gael eu paru â dyraniadau lleoliadau sy'n cael sgôr risg addas neu ystyriaeth brydlon o drefniadau rhaglen amgen.[2]
Bod yn agored mewn amgylchedd heriol	
Meincnod:	
8.	Mae pob myfyriwr sy'n dychwelyd i leoliadau yn llenwi 'Pasbort Cymru gyfan ar gyfer dychwelyd yn ddiogel i leoliad' (Atodiad 1) sy'n rhoi manylion am baratoi a chynnwys sefydlu cyn lleoli, cadarnhad o asesiad risg unigol myfyriwr a pharu lleoliad priodol, a chwblhau rhestr wirio COVID-19 yr amgylchedd ymarfer lleol yn ystod wythnos gyntaf dyrannu lleoliadau.[3]

[2] Yn cynnwys cyfrifoldebau parhaus myfyrwyr unigol i hunanynysu, hysbysu am salwch a chyswllt ar gyfer profion os ydynt yn profi symptomau COVID-19, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru: https://www.gov.uk/government/collections/coronavirus-covid-19-list-of-guidance#guidance-for-the-public

[3] Bydd y Darparwr Lleoliad yn cytuno i gadw a chynnal atebolrwydd cyhoeddus digonol, atebolrwydd cyflogwyr, ac unrhyw yswiriant priodol arall sy'n angenrheidiol ar gyfer staff a myfyrwyr yr AEI, mewn perthynas ag anaf personol neu farwolaeth, neu anaf, colled neu ddifrod i eiddo, ac atebolrwydd dirprwyol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn y cynllun Yswiriant Bywyd yn eu rolau cyflogedig a phan fyddant yn dychwelyd i statws lleoliad ychwanegol. Bydd y cynllun ar agor tan 25.03.22. Efallai y bydd Gweinidogion yn ymestyn dyddiad gorffen y cynllun neu bennu dyddiad cynharach, gydag leiaf 6 mis o rybudd i ganiatáu i unrhyw hawliadau terfynol gael eu gwneud: https://www.nhsbsa.nhs.uk/nhs-and-social-care-coronavirus-life-assurance-scheme-2020-wales/scheme-information-wales-claimants

9.	Mae 'Canllawiau arfer gorau Cymru gyfan ar gyfer achosion rhanbarthol o COVID-19' (Atodiad 2) yn caniatáu ar gyfer uwchgyfeirio'n gyflym i wneud penderfyniadau ar lefel weithredol rhwng sefydliadau Darparwyr Lleoliadau perthnasol, AEIs ac AaGIC, gan gynnwys parhad lleoliadau myfyrwyr (ac atal lleoliadau fel yr ateb olaf), adolygu statws lleoliadau myfyrwyr trwy gyfarfodydd achosion o COVID-19, adroddiadau rheolaidd SBAR a chamau dirprwyedig ar ailddatblygu cyfleoedd dysgu ymarfer, lle bod modd gwneud hynny.
10.	Mae cydweithredu amserol rhwng Darparwyr Lleoliadau perthnasol a phersonél AEI yn sicrhau adolygiad o addasrwydd ac ansawdd amgylcheddau dysgu ymarfer gan ddefnyddio adnoddau archwilio addysgol priodol wedi'u haddasu i COVID-19.
Ehangu lleoliadau ac ymarfer arloesol	
Meincnod:	
11.	Mae cyfarfodydd a drefnwyd rhwng Darparwyr Lleoliadau ac AEI yn galluogi adolygiad sefydliadol rheolaidd o gapasiti lleoliadau, ansawdd lleoliadau a meddalwedd lleoliadau sy'n caniatáu ar gyfer y potensial i gynyddu niferoedd dyrannu myfyrwyr i'r eithaf, yn unol ag ymrwymiadau cynllunio gweithlu cynaliadwy (Cynlluniau Tymor Canolig Integredig) a Chynlluniau Lleoliadau AaGIC.
12.	Mae tystiolaeth o baratoi goruchwylwyr ymarfer, addysgwyr a chyfleusterau aseswyr mewn modd priodol yn hwyluso camau myfyrwyr tuag at gyflawni canlyniadau dysgu ar leoliad, gan gynnwys yn ystod lleoliadau lle ceir llai o wasanaethau clinigol o ganlyniad i COVID-19.
13.	Mae modelu lleoliadau Darparwyr Lleoliadau ac AEI yn cynnwys atebion arloesol o ran capasiti lleoliadau ar draws gofal iechyd sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, adrannau tai, lleoliadau gofal iechyd annibynnol, ysbytai maes, gwasanaethau COVID-19 nad ydynt yn wynebu cleientiaid a'r defnydd creadigol o efelychu fel rhan o ddysgu ymarfer.

Gwybodaeth ac adborth ymatebol am leoliadau	
Meincnod:	
14.	Mae protocol Cytundeb Lefel Lleol AaGIC/AEI/Darparwr Lleoliadau o gymorth i gael gwybodaeth amserol am achosion rhanbarthol o COVID-19, unrhyw benderfyniad i atal lleoliadau myfyrwyr dros dro, cynlluniau ailddechrau lleoliadau, neu ofyniad i gwblhau adroddiadau eithriadau rheoleiddiwr proffesiynol.
15.	Mae gwybodaeth am leoliadau Darparwyr Lleoliadau, AEI ac AaGIC yn cynnwys dulliau cadarn o gasglu gwybodaeth gwerthuso lleoliadau myfyrwyr, adborth gan grwpiau ffocws wedi'u hwyluso, data arolygon myfyrwyr, gwerthuso gwasanaethau a gwaith ymchwil a gomisiynwyd.
16.	Mae dulliau o ddewis a dethol a recriwtio myfyrwyr ar sail gwerthoedd, i raglenni proffesiynau iechyd (o ystyried y cynnydd posibl mewn cyfraddau ymgeisio ar ôl COVID-19), yn parhau i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, staff AEI, cynrychiolwyr Darparwyr Lleoliadau a myfyrwyr o fewn timau cyfweld sy'n asesu rhinweddau ymgeiswyr o safbwynt caredigrwydd deallus, tosturi, cydnerthedd ac arweinyddiaeth.[4]

[4] Bydd athroniaeth ddethol a recriwtio sylfaenol sy'n seiliedig ar werthoedd yn parhau, boed digwyddiadau'n cael eu cynnal yn rhithiol neu wyneb yn wyneb.

Atodiad 1. Pasbort Cymru gyfan ar gyfer dychwelyd yn ddiogel i leoliad
Bydd y myfyriwr yn cadw'r pasbort hwn a'i ddangos i ddarparwyr lleoliadau yn ôl y gofyn.

FY MHASPORT CYMRU GYFAN AR GYFER DYCHWELYD YN DDIOGEL I LEOLIAD

Enw'r myfyriwr	
Enw'r lleoliad	

Rhan A: Cadarnhad o asesiad risg unigol myfyriwr a pharu lleoliad priodol		Do, Naddo
Rwyf wedi cwblhau Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu (neu gyfwerth) https://llyw.cymru/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu		
Rwyf wedi cael cadarnhad bod y lleoliad a ddyrannwyd i mi yn briodol ar gyfer fy sgôr Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu.		
Yn dilyn fy sgôr asesu risg a thrafodaethau cyn lleoliad gyda'r staff personél allweddol, mae angen i mi drafod yr addasiadau rhesymol a nodwyd er mwyn fy helpu i wneud fy lleoliad gwaith.		
Rwyf wedi cael cyfle i drafod fy asesiad risg (lle bo angen) gydag aelod perthnasol o staff y brifysgol.		
Rwyf wedi derbyn fy mrechiad COVID-19	Dyddiad y dos cyntaf	
	Dyddiad yr ail ddos	


Rhan B: Cynnwys ymsefydlu a gyflawnwyd cyn lleoliad ac wrth ddechrau lleoliad *(i'w lenwi o fewn yr wythnos gyntaf)*

Rwyf i (myfyriwr) yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r elfennau gofynnol COVID-19 ymsefydlu allweddol canlynol cyn lleoliad *(ychwanegwch eich blaenlythrennau)*:

Cynnwys ymsefydlu cyffredinol ar gyfer pob proffesiwn		**Wythnos gyntaf y lleoliad**	
Trefniadau cymorth i fyfyrwyr AEI yn ystod lleoliad		**Cwblhau rhestr wirio cyfeiriadedd lleoliad arferol**	
Diogelu ac uwchgyfeirio pryderon		Ffitio PPE	
		Adrodd am ddigwyddiadau Datix	
Atal a rheoli heintiau gan gynnwys defnyddio PPE		Cydymffurfio â chod iwnifform Cymru gyfan yn y lleoliad a thu allan i'r lleoliad	
Sgiliau ymdopi o safbwynt llesiant a chydnerthedd		Mynediad at wasanaethau llesiant a chymorth i staff.	


Llofnod y myfyriwr		Dyddiad	
Llofnod goruchwylydd ymarfer		Dyddiad	

Atodiad 2. **Canllawiau arferion gorau ar gyfer achosion rhanbarthol o COVID-19**



Cefnogir y ddogfen hon gan:

Yr Athro Jean White CBE
Prif Swyddog Nyrsio
Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru



Alex Howells? Angela Parry?
AaGIC

Ruth Crowder
Prif Gynghorydd y Proffesiynau Iechyd Perthynol
Y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru



Ian Mathieson
Cadeirydd Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru

